

# Mesuryddion clyfar: y camsyniadau

Dyma wybodaeth i'ch helpu i ddeall y ffeithiau am fesuryddion clyfar ac i ateb rhai o'r cwestiynau sydd gennych.

## **Dydw i ddim yn gweld y pwynt o fesuryddion clyfar. Beth yw'r manteision i mi?**

Mae gan fesuryddion clyfar lawer o fuddion i bobl sy'n rhentu eu cartref. Rydyn ni'n gwybod bod pobl sydd â mesuryddion clyfar yn cael gwell syniad o faint o ynni maen nhw'n ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio

Maen nhw'n darparu darlenniadau mesurydd cywir ac awtomatig sy'n golygu nad oes biliau annisgwyl ar ddiwedd y mis, na'r denantiaeth. Gall hyn eich helpu i aros ar ben eich biliau fel eich bod yn llai tebygol o fynd i ddyled.

Mae mesuryddion clyfar yn dangos eich defnydd o ynni bron mewn amser real ar y sgrîn ynni cartref – gall cael yr wybodaeth hon eich helpu i wneud newidiadau bach o amgylch eich cartref i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Os byddwch yn cymryd camau i wneud eich cartref yn fwy effeithlon ac addasu eich defnydd o ynni, gallwch ddefnyddio data eich mesurydd clyfar i weld y gwahaniaeth mae'r gweithrediadau hyn yn eu gwneud.

## **Dwi'n nerfus am siarad gyda fy landlord ynghylch mesuryddion clyfar. Beth mae landlordiaid yn ei feddwl amdanyn nhw?**

Mae ein hymchwil yn dangos bod y mwyafrif o landlordiaid yn agored i fesuryddion clyfar, ac na fyddent yn atal eu tenantiaid rhag cael nhw. Yn wir, mae rhai landlordiaid wedi dweud iddynt dybio nad yw eu tenantiaid eu heisiau dim ond oherwydd nad ydyn nhw wedi gofyn amdanynt!

## Sut alla i gael gosodiad mesurydd clyfar yn fy eiddo a rentir?

Os mai chi sy'n talu am y nwy neu'r trydan yn eich eiddo a rentir, gallwch chi ddewis cael mesurydd clyfar. Rydym yn argymhell i chi ddweud wrth eich landlord cyn cael un.

Mae hynny oherwydd y gallai fod rheolau yn eich cytundeb tenantiaeth ynglŷn â sut mae ynni'n cael ei gyflenwi i'r eiddo, gan gynnwys y math o fesurydd y gellir ei osod.

Os yw eich cytundeb tenantiaeth yn dweud bod angen caniatâd gan eich landlord i newid y mesurydd yn eich eiddo, ni ddylent ei atal yn afresymol. Gallwch eu cyfeirio at ein gwefan i ddysgu mwy am y broses osod a'r manteision i chi ac unrhyw denantiaid yn y dyfodol.

## A fydd mesurydd clyfar yn gwneud newid cyflenwr ynni yn anodd yn y dyfodol?

Na fydd. Os oes gennych chi fesurydd clyfar mae'r broses o newid cyflenwr yr un peth yn union ag ar gyfer mesurydd traddodiadol, a does dim angen i chi gael mesuryddion clyfar newydd yn yr eiddo os byddwch chi'n newid cyflenwr.

## Ydy mesuryddion clyfar yn gweithio gyda rhagdal?

Ydynt. Gall pob mesurydd clyfar weithio yn y modd credyd neu'r modd rhagdal. Mae llawer o fanteision i bobl sy'n defnyddio rhagdal clyfar, gan gynnwys ychwanegu credyd ar-lein neu dros y ffôn, yn ogystal â chyfleoedd i gael cefnogaeth ychwanegol, o bell gan eich cyflenwr ynni os ydych chi'n cael trafferth rhoi credyd ar eich mesurydd.

## Ydy fy nata personol i mewn perygl gyda mesurydd clyfar?

Nac ydy. Mae mesuryddion clyfar yn ddiogel iawn. Mae hyn oherwydd bod ganddynt system ddiogeledd a ddatblygwyd gan arbenigwyr blaenllaw diwydiant a'r llywodraeth gan gynnwys Ganolfan Diogeledd Seiber Genedlaethol GCHQ.

Nid yw enw, cyfeiriad a manylion cyfrif banc y person sy'n talu'r bil byth yn cael eu storio ar y mesurydd, dim ond faint o ynni rydych chi'n ei ddefnyddio.

## Oes angen cysylltiad band eang ar fesuryddion clyfar i weithio?

Nac oes. Mae mesuryddion clyfar yn defnyddio system ddiwifr benodedig sy'n hollol wahanol. Does dim angen Wi-Fi arnoch er mwyn iddynt weithio ac ni fyddant yn defnyddio eich Wi-Fi chi. Mae'r mesurydd clyfar a'r sgrîn ynni cartref yn cyfathrebu trwy rwydwaith cenedlaethol diogel sydd ar gyfer mesuryddion clyfar yn unig.

## Oes rhaid talu i gael mesurydd clyfar?

Does dim cost ychwanegol am osod mesurydd clyfar a chael cynnig sgrîn ynni cartref. Yn yr un modd â mesuryddion traddodiadol, mae'r gost o redeg a chynnal y rhwydwaith mesuryddion clyfar wedi'i lledaenu ar draws biliau pawb.

## Beth os achosir difrod yn ystod y gosodiad?

Mae mesuryddion clyfar yn cael eu gosod gan osodwyr sydd â chymhwyster ffurfiol er mwyn bodloni safonau cenedlaethol penodol, fel y nodir yn yr Atodlen Gosod Mesuryddion Clyfar. Mae'r cyflenwyr ynni i gyd wedi ymrwymo i'r côd hwn, sy'n cael ei reoleiddio gan Ofgem, ac nhw sydd â'r pŵer i'w ofodi. Yn yr achos annhebygol y bydd difrod yn digwydd i'r eiddo yn ystod y gosodiad, bydd y cyflenwr yn unioni hyn.